Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

2011 mccc 4

RHAN 8

[F1]...TALIADAU A PHENSIYNAU

[[F1]Adroddiadau gan y Panel

[[F1]149 Cyfarwyddiadau i amrywio adroddiadau drafft

(1) Caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo'r Panel i ailystyried darpariaeth yn yr adroddiad drafft.

(2) Rhaid i gyfarwyddyd o dan yr adran hon bennu—

(a) y ddarpariaeth,

(b) y rheswm dros roi'r cyfarwyddyd, ac

(c) y dyddiad erbyn pryd y mae Gweinidogion Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel ymateb.

(3) O ran y Panel—

(a) rhaid iddo ymateb i'r cyfarwyddyd heb fod yn hwyrach na'r dyddiad a bennir at ddibenion is-adran (2)(c);

(b) ni chaiff gyhoeddi'r adroddiad cyn iddo fod wedi ymateb i'r cyfarwyddyd.

(4) Os yw'r Panel yn penderfynu peidio ag amrywio'r drafft yn unol â'r cyfarwyddyd, rhaid iddo bennu yn ei ymateb y rheswm dros ei benderfyniad.**]**

Diwygiadau Testunol

F1 A. 143A pennawd wedi ei amnewid (5.5.2022) gan Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (asc 1), a. 175(7), **Atod. 5 para. 15(f)**; O.S. 2021/231, ergl. 6(s)

Gwybodaeth Cychwyn

I1 A. 149 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 178(3)**

I2 A. 149 mewn grym ar 31.8.2011 at ddibenion penodedig gan O.S. 2011/2011, **ergl. 2(i)**

I3 A. 149 mewn grym ar 30.4.2012 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2012/1187, **ergl. 2(2)(d)**

Newidiadau i ddeddfwriaeth:
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 149.